



Polisi Cydymffurfiaeth â GDPR

Awdur: David Finney
Adolygiad: 2
Dyddiad Adolygu: Hydref 2020

Dyddiad: Mai 2018
Adolygwyd: Medi 2019

Cynnwys

Cyflwyniad
Diffiniadau
Cwmpas
Yr Egwyddorion
Ein Gweithdrefnau
Categoriâu arbennig o wybodaeth bersonol
Cyfrifoldebau
Hawliau unigolion
Hysbysiadau Preifatrwydd
Ceisiadau am Fynediad at Ddata gan y Testun
Yr hawl i ddileu
Trydydd partïon
Archwiliadau, monitro a hyfforddiant
Cofnodi achosion o dramgwydd
Polisiâu ategol

Cyflwyniad

Mae Grŵp TTC wedi ymrwmo i ddiogelu hawliau a rhyddid testunau data ac yn prosesu eu data yn ddiogel ac yn unol â'n holl rwymedigaethau cyfreithiol.

Rydym yn meddu ar ddata personol am ein gweithwyr, cleientiaid, cyflenwyr ac unigolion eraill ar gyfer amrywiaeth o ddibenion busnes.

Mae'r polisi hwn yn nodi sut rydym yn ceisio diogelu data personol a sicrhau bod ein staff yn deall y rheolau sy'n llywodraethu eu defnydd o'r data personol y mae ganddynt fynediad ato wrth wneud eu gwaith. Yn benodol, mae'r polisi hwn yn gofyn i staff sicrhau yr ymgynghorir â'r Swyddog Diogelu Data (DPO) cyn dechrau ar unrhyw weithgarwch prosesu data newydd arwyddocaol, er mwyn sicrhau yr eir i'r afael â chamau cydymffurfio perthnasol.

Diffiniadau

<p>Dibenion busnes</p>	<p>Y dibenion y gallwn ddefnyddio data personol ar eu cyfer:</p> <p>Dibenion personél, gweinyddol, ariannol, rheoleiddiol, cyflogres a datblygu busnes.</p> <p><i>Mae dibenion busnes yn cynnwys y canlynol:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> - <i>Cydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol, rheoleiddiol a llywodraethu corfforaethol ac ymarfer da</i> - <i>Casglu gwybodaeth fel rhan o ymchwiliadau gan gyrff rheoleiddiol neu mewn cysylltiad ag achosion cyfreithiol neu geisiadau</i> - <i>Sicrhau y cedwir at bolisiau busnes (fel polisiau sy'n ymwneud ag e-bost a defnydd o'r rhyngwrwyd)</i> - <i>Resymau gweithredol, fel cofnodi trafodion, hyfforddiant a rheoli ansawdd, sicrhau cyfrinachedd gwybodaeth sy'n fasnachol sensitif, fetio diogelwch.</i> - <i>Ymchwilio i gŵynion</i> - <i>Gwirio tystlythyrau, sicrhau ymarferion gweithio diogel, monitro a rheoli mynediad staff at systemau a chyfleusterau ac absenoldebau, gweinyddiaeth ac asesiadau staff</i> - <i>Monitro ymddygiad staff, materion sy'n ymwneud â disgyblu</i> - <i>Marchnata ein busnes</i> - <i>Gwella gwasanaethau</i>
<p>Data personol</p>	<p>Ystyr 'data personol' yw unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â bod dynol adnabyddedig neu adnabyddadwy ('testun y data'); bod dynol adnabyddadwy yw un y gellir ei adnabod, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn benodol trwy gyfeirio at ddynodydd fel enw, rhif adnabod, data lleoliad, dynodydd ar-lein neu at un neu fwy o ffactorau sy'n benodol i hunaniaeth gorfforol, ffisiolegol, genetig, meddyliol, economaidd, diwylliannol neu gymdeithasol y bod dynol hwnnw.</p> <p><i>Gall data personol a gasglwn gynnwys: rhif ffôn unigolion, cyfeiriad, cyfeiriad e-bost, cefndir/hanes gyrru (gan gynnwys manylion y drwydded), manylion ariannol a chyflog, addysg a sgiliau, statws</i></p>

	<i>priodasol, gwybodaeth feddygol berthnasol, cenedligrwydd, teitl swydd, a CV.</i>
Categoriâu arbennig o ddata personol	Mae categorïau arbennig o ddata yn cynnwys gwybodaeth am darddiad hiliol neu ethnig unigolyn, barn wleidyddol, credoau crefyddol neu debyg, aelodaeth o undeb llafur (neu ddiffyg aelodaeth), iechyd neu gyflwr corfforol neu feddyliol, troseddau, neu achosion sy'n gysylltiedig, a gwybodaeth enetig a biometrig — dylid rheoli unrhyw ddefnydd o gategoriâu arbennig o ddata personol yn ddieithriad yn unol â'r polisi hwn.
Rheolydd data	Ystyr 'rheolydd data' yw'r bod dynol naturiol neu unigolyn cyfreithiol, awdurdod cyhoeddus, asiantaeth neu gorff arall sydd, ar ei ben ei hun neu ar y cyd ag eraill, yn pennu dibenion a dull prosesu data personol; pan mae'r gyfraith yn pennu dibenion a dulliau prosesu o'r fath.
Prosesydd data	Ystyr 'prosesydd' yw bod dynol neu unigolyn cyfreithiol, awdurdod cyhoeddus, asiantaeth neu gorff arall sy'n prosesu data personol ar ran y rheolydd.
Prosesu	Ystyr 'prosesu' yw unrhyw weithrediad neu gyfres o weithrediadau a gyflawnir ar ddata personol neu ar setiau o ddata personol, boed trwy ddulliau awtomataidd ai peidio, fel casglu, cofnodi, trefnu, strwythuro, storio, addasu neu newid, adalw, ymgynghori, defnyddio, datgelu trwy drosglwyddo, lledaenu neu sicrhau ei fod ar gael mewn ffordd arall, alinio neu gyfuno, cyfyngu, dileu neu ddinistrio.
Awdurdod goruchwyllo	Dyma'r corff cenedlaethol sy'n gyfrifol am ddiogelu data. Awdurdod goruchwyllo ein sefydliad yw Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO)

Cwmpas

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob aelod o staff, ac mae'n rhaid iddynt fod yn gyfarwydd â'r polisi hwn a chydymffurfio â'i delerau.

Mae'r polisi hwn yn ategu ein polisïau eraill sy'n ymwneud â Diogelu Data. Efallai y byddwn yn ychwanegu at y polisi hwn, neu'n ei ddiwygio, trwy bolisïau a chanllawiau ychwanegol o bryd i'w gilydd. Bydd unrhyw bolisi newydd neu ddiwygiedig yn cael ei gylchredeg ymhlith y staff cyn cael ei fabwysiadu.

Pwy sy'n gyfrifol am y polisi hwn?

Fel ein swyddog diogelu data (DPO), David Finney sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am weithredu'r polisi hwn o ddydd i ddydd. Dylech gysylltu â'r DPO i gael gwybodaeth bellach am y polisi hwn os bydd angen.

David Finney
david.finney@ttc-uk.com
 01952 607190

Yr egwyddorion

Mae Grŵp TTC yn cydymffurfio ag egwyddorion diogelu data (yr Egwyddorion) sy'n cael eu cyflwyno yn Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data'r UE. Byddwn yn gwneud pob ymdrech posibl, ym mhopeth a wnawn, i gydymffurfio â'r egwyddorion hyn. Dyma'r Egwyddorion:

1. Yn gyfreithlon, yn deg ac yn dryloyw

Mae'n rhaid i gasglu data fod yn deg, at ddiben cyfreithiol ac mae'n rhaid i ni fod yn agored ac yn dryloyw o ran sut y caiff y data ei ddefnyddio.

2. Yn gyfyngedig i'w ddiben

Gellir casglu data at ddiben penodol yn unig.

3. Lleihau data

Mae'n rhaid i unrhyw ddata a gesglir fod yn angenrheidiol a heb fod yn ormodol i'w ddiben.

4. Yn gywir

Mae'n rhaid i'r data sydd gennym fod yn gywir a chael ei gadw'n yn gyfredol.

5. Cadw

Ni allwn storio data am fwy o amser na'r hyn sy'n ofynnol.

6. Cywirdeb a chyfrinachedd

Mae'n rhaid sicrhau bod y data sydd gennym yn cael ei gadw'n ddiogel.

Atebolrwydd a thryloywder

Rydym yn sicrhau atebolrwydd a thryloywder yn ein holl ddefnydd o ddata personol. Rydym yn dangos sut rydym yn cydymffurfio â phob Egwyddor trwy gadw cofnod ysgrifenedig o'r holl weithgareddau prosesu data rydym yn gyfrifol amdanynt yn cydymffurfio â phob un o'r Egwyddorion. Mae'r rhain cadw'r cofnod hwn yn gyfredol ac mae'n rhaid i'r DPO ei gymeradwyo.

Er mwyn cydymffurfio â chyfreithiau diogelu data ac egwyddor atebolrwydd a thryloywder GDPR, rydym yn dangos ein bod yn cydymffurfio ac rydym yn gyfrifol am ddeall ein cyfrifoldebau penodol i sicrhau ein bod yn bodloni'r rhwymedigaethau diogelu data canlynol:

- Gweithredu'n llawn yr holl fesurau technegol a sefydliadol priodol
- Cynnal dogfennau cyfredol a pherthnasol ar yr holl weithgarwch prosesu
- Cynnal Asesiadau o Effaith Diogelu Data
- Gweithredu mesurau i sicrhau preifatrwydd trwy ddyluniad ac yn ddiodyn, gan gynnwys:
 - Lleihau data
 - Rhoi dan ffugenw
 - Tryloywder
 - Caniatáu unigolion i fonitro prosesu
 - Creu a gwella diogelwch, a gweithdrefnau preifatrwydd gwell, yn barhaus

Ein gweithdrefnau

Prosesu teg a chyfreithlon

Rydym yn prosesu data personol yn deg ac yn gyfreithlon yn unol â hawliau unigolion o dan yr Egwyddor gyntaf. Yn gyffredinol, mae hyn yn golygu nad ydym yn prosesu data personol oni bai bod yr unigolyn rydym yn prosesu ei fanylion wedi cydsynio bod hyn yn digwydd neu fod gennym rywmedigaeth gytundebol neu gyfreithiol i'w brosesu.

Os na allwn ddefnyddio sail gyfreithlon (esboniad isod), nid yw ein prosesu yn cydymffurfio â'r egwyddor gyntaf a bydd yn anghyfreithlon. Mae gan destunau data'r hawl i gael unrhyw ddata a broseswyd yn anghyfreithlon wedi'i ddileu.

Rheoli vs prosesu data

Mae Grŵp TTC wedi'i ddsbarthu fel rheolydd data a phrosesydd data. Rydym yn cynnal ein cofrestriad priodol â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth er mwyn parhau i reoli a phrosesu data yn gyfreithlon.

Grŵp TTC Cyf – **ZA272769**

TTC 2000 Cyf – **ZA020741**

Cycle Experience Cyf – **ZA166005**

Business Driver Fleet Management Cyf – **Z2818036**

Fel prosesydd data, rydym yn cydymffurfio â'n rhwymedigaethau cytundebol ac yn gweithredu ar gyfarwyddiadau cofnodedig y rheolydd data yn unig. Fel prosesydd data:

- Nid ydym yn defnyddio is-brosesydd heb awdurdodiad ysgrifenedig y rheolydd data
- Rydym yn cydweithredu'n llawn â'r ICO neu awdurdod goruchwyllo arall
- Rydym yn sicrhau diogelwch y prosesu
- Rydym yn cadw cofnodion cywir o weithgareddau prosesu
- Rydym yn rhoi gwybod i'r rheolydd am unrhyw dramgwyddau data personol

Os oes unrhyw amheuaeth ynglŷn â sut rydym yn trin data, cysylltwch â'r DPO i gael eglurhad.

Sail gyfreithlon ar gyfer prosesu data

Rydym yn sefydlu sail gyfreithlon ar gyfer prosesu data ac yn sicrhau bod gan unrhyw ddata rydym yn gyfrifol am ei reoli sail gyfreithiol ysgrifenedig wedi'i gymeradwyo gan y DPO. Caiff sail gyfreithlon pob un o'n hasedau data ei dogfennu er mwyn darparu eglurder a thryloywder. Mae o leiaf un o'r amodau canlynol yn berthnasol pryd bynnag y byddwn yn prosesu data personol:

1. Cydsyniad

Rydym yn meddu ar gydsyniad diweddar, clir, penodol a diffiniedig i brosesu data'r unigolyn at ddiben penodol.

2. Cytundeb

Mae'r prosesu'n angenrheidiol er mwyn cyflawni neu baratoi cytundeb ar gyfer yr unigolyn.

3. Rhwymedigaeth gyfreithiol

Mae gennym rwymedigaeth gyfreithiol i brosesu'r data (gan eithrio cytundeb).

4. Buddiannau allweddol i fywyd

Mae angen prosesu'r data i ddiogelu bywyd unigolyn neu mewn sefyllfa feddygol.

5. Swyddogaeth gyhoeddus

Prosesu sydd ei angen i gyflawni swyddogaeth gyhoeddus, tasg er lles y cyhoedd neu swyddogaeth sydd â sail glir mewn cyfraith.

6. Buddiant cyfreithlon

Mae angen y prosesu ar gyfer ein buddiannau cyfreithlon. Nid yw'r amod hwn yn berthnasol os oes rheswm da dros ddiogelu data personol yr unigolyn sy'n diystyru'r buddiant cyfreithlon.

Penderfynu pa amod i ddibynnu arno

Wrth wneud asesiad o'r sail gyfreithlon, yn gyntaf rydym yn pennu bod y prosesu'n ofynnol. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r prosesu fod yn ffordd briodol, wedi'i thargedu, o gyflawni'r diben a nodwyd. Nid ydym yn dibynnu ar sail gyfreithlon os gallwn gyflawni'r un diben yn rhesymol trwy ryw ddull arall.

Mae ein hymrwymiad i'r Egwyddor gyntaf yn golygu bod angen i ni ddogfennu'r broses hon a dangos ein bod wedi ystyried pa sail gyfreithlon sydd mwyaf perthnasol i bob diben prosesu, a chyfiawnhau'r penderfyniadau hyn yn llawn.

Rydym hefyd yn sicrhau bod unigolion rydym yn prosesu eu data'n cael gwybod am y sail gyfreithlon ar gyfer prosesu eu data, yn ogystal â'r diben a fwriadwyd. Gwneir hyn trwy gyfrwng hysbysiad preifatrwydd. Mae hyn yn berthnasol p'un a ydym wedi casglu'r data yn uniongyrchol oddi wrth yr unigolyn, neu o ffynhonnell arall.

Categoriâu arbennig o ddata personol

Beth yw categorïau arbennig o ddata personol?

Fe'i gelwid gynt yn ddata personol sensitif, sy'n golygu data am unigolyn sy'n fwy sensitif, felly mae angen mwy o ddiogelwch arno. Gallai'r math hwn o ddata greu risgiau mwy sylweddol i hawliau a rhyddid sylfaenol unigolyn, er enghraifft trwy ei roi mewn perygl o wahaniaethu anghyfreithlon. Mae'r categorïau arbennig yn cynnwys y wybodaeth ganlynol am unigolyn:

- hil
- tarddiad ethnig
- gwleidyddiaeth
- crefydd
- aelodaeth o undeb llafur
- geneteg
- biometreg (lle caiff ei defnyddio at ddibenion ID)
- iechyd
- cyfeiriadedd rhywiol

Yn y rhan fwyaf o achosion lle rydym yn prosesu categorïau arbennig o ddata personol, bydd angen cydsyniad *penodol* y testun data i wneud hyn, oni bai bod amgylchiadau eithriadol yn berthnasol, neu os yw'r gyfraith yn gofyn i ni wneud hyn (e.e. i gydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol i sicrhau iechyd a diogelwch yn y gwaith). Mae unrhyw gydsyniad o'r fath yn nodi'n glir beth yw'r data perthnasol, pam ei fod yn cael ei brosesu ac i bwy y caiff ei ddatgelu.

Cyfrifoldebau

Ein cyfrifoldebau a'n hamcanion

- Dadansoddi a dogfennu a dosbarthu'r math o ddata personol sydd gennym
- Gwirio gweithdrefnau i sicrhau eu bod yn cwmpasu holl hawliau'r unigolyn
- Nodi'r sail gyfreithlon ar gyfer prosesu data
- Sicrhau bod y gweithdrefnau cydsyniad yn gyfreithlon
- Gweithredu ac adolygu gweithdrefnau i ganfod tramgwyddau data personol, adrodd arnynt ac ymchwilio iddynt
- Storio data mewn ffyrdd diogel
- Asesu'r risg y gellid ei beri i hawliau a rhyddid unigolion pe bai data'n cael ei gyfaddawdu
- Deall ein rhwymedigaethau diogelu data yn llawn
- Gwirio bod unrhyw weithgareddau prosesu data rydym yn ymdrin â hwy yn cydymffurfio â'n polisi a bod cyfiawnhad iddynt
- Peidiwch â defnyddio data mewn unrhyw ffordd anghyfreithlon
- Peidiwch â storio data'n anghywir, bod yn ddiogel ag ef neu achosi tramgwydd deddfau diogelu data mewn ffordd arall
- Cydymffurfiwch â'r polisi hwn bob amser
- Codwch unrhyw bryderon, rhowch wybod am unrhyw dramgwyddau neu wallau, a rhowch wybod yn ddi-oed am unrhyw beth amheus neu groes i'r polisi hwn neu ein rhwymedigaethau cyfreithiol

Rôl y Swyddog Diogelu Data

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r bwrdd am gyfrifoldebau diogelu data, risgiau a materion
- Adolygu'r holl weithdrefnau a pholisïau diogelu data yn rheolaidd
- Trefnu hyfforddiant a chynngor diogelu data i bob aelod o staff a'r rheiny sydd wedi'u cynnwys yn y polisi hwn
- Ateb cwestiynau am ddiogelu data oddi wrth staff, aelodau'r bwrdd a rhanddeiliaid eraill
- Ymateb i unigolion fel cleientiaid a gweithwyr sy'n dymuno gwybod pa ddata sydd gennym amdanynt
- Gwirio a chymeradwyo unrhyw gontractau neu gytundebau mewn perthynas â phrosesu data â thrydydd partïon sy'n ymdrin â data'r cwmni
- Gwneud trefniadau i ddelio â Cheisiadau am Fynediad at Ddata gan y Testun
- Adrodd i'r ICO pan fo angen

Cywirdeb a pherthnasedd

Byddwn yn sicrhau bod unrhyw ddata personol rydym yn ei brosesu yn gywir, yn ddigonol, yn berthnasol a heb fod yn ormodol, o ystyried pam cafwyd y data hwn. Ni fyddwn yn prosesu data personol a gafwyd at un diben at unrhyw ddiben digyswllt oni bai bod yr unigolyn dan sylw wedi cytuno i hyn neu y byddai fel arall yn disgwyl hyn yn rhesymol.

Gall unigolion ofyn i ni gywiro data personol anghywir sy'n ymwneud â nhw. Os credwn fod gwrebodaeth yn anghywir byddwn yn gwneud pob ymdrech i gywiro'r wybodaeth hon â chymeradwyaeth testun y data neu'r rheolydd data.

Diogelwch data

Caiff yr holl ddata ei storio'n ddiogel ac yn unol â'r fframwaith ISO 27001 y mae TTC wedi'i ardystio.

Pan fydd sefydliadau eraill yn prosesu data personol fel gwasanaeth ar ein rhan, ymgwymerir â'r diwydrwydd dyladwy perthnasol i sicrhau bod diogelwch addas ar waith sy'n berthnasol i'r prosesu ac os oes unrhyw drefniadau diogelwch data ychwanegol, penodol y mae angen eu gweithredu mewn contractau â'r sefydliadau trydydd parti hynny.

Storio data'n ddiogel

- Mewn achosion lle caiff data ei storio ar bapur printiedig, caiff ei gadw mewn man diogel lle nad yw personél anawdurdodedig yn gallu cael mynediad ato
- Caiff data printiedig ei waredu'n ddiogel pan nad oes ei angen bellach. I gael mwy o wybodaeth gweler - **Polisi Gwaredu Data**.
- Mae data sy'n cael ei storio ar gyfrifiadur yn cael ei ddiogelu gan gyfrineiriau cryf sy'n cael eu newid yn rheolaidd. Anogwn bob aelod o staff i ddefnyddio cyfrineiriau sy'n cael eu harchwilio'n rheolaidd. I gael mwy o wybodaeth gweler – **Polisi Cyfrineiriau**
- Mae'n rhaid i ddata sy'n cael ei storio ar gyfryngau cludadwy gael ei amgryptio neu ei ddiogelu gan gyfrinair a'i gloi i ffwrdd yn ddiogel pan nad yw'n cael ei ddefnyddio
- Mae'n rhaid i'r Cyfarwyddwr TG gymeradwyo unrhyw system storio yn y cwmwl a ddefnyddir i storio data
- Cedwir gweinyddion sy'n cynnwys data personol mewn lleoliad diogel, â mynediad wedi'i gyfyngu'n sylweddol
- Caiff copi wrth gefn ei wneud o ddata yn rheolaidd yn unol â gweithdrefnau gwneud copi wrth gefn y cwmni

- Ni chaiff data ei storio'n uniongyrchol ar ddyfeisiau symudol fel gliniaduron, llechi neu ffonau deallus
- Mae'r holl weinyddion sy'n cynnwys data sensitif yn cael eu cymeradwyo a'u diogelu gan feddalwedd diogelwch
- Caiff pob mesur technegol posibl o fewn ymarferoldeb rhesymol ei roi ar waith i gadw data'n ddiogel

Cadw data

Nid ydym yn cadw data personol am gyfnod hirach nag sy'n ofynnol. Bydd yr hyn sy'n ofynnol yn dibynnu ar amgylchiadau'r ased data neu destun y data, gan ystyried y rhesymau pam y cafwyd y data personol, a'r diben prosesu ac a oes unrhyw rwymedigaethau cyfreithiol neu gytundebol i'w bodloni. I gael mwy o wybodaeth gweler – **Polisi Cadw Data**.

Trosglwyddo data

Bydd Grŵp TTC bob amser yn trosglwyddo data sensitif, lle bynnag y bo'n bosibl, gan ddefnyddio dull diogel o drosglwyddo, caiff y dull hwn ei gyfathrebu a'i drefnu â'r trosglwyddai. Rydym yn argymhell bod unigolion neu drydydd partiön yn defnyddio dull trosglwyddo diogel addas wrth anfon data atom. Yr anfonwr sy'n gyfrifol am y data wrth iddo gael ei gludo.

Trosglwyddo data yn rhyngwladol

Ar hyn o bryd nid yw Grŵp TTC yn trosglwyddo unrhyw ddata y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA). Os bydd gofyniad i TTC wneud hynny, caiff ei wneud yn destun i gytundeb cyfreithiol rhwymol rhwng y partiön perthnasol yn unig.

Hawliau unigolion

Mae gan unigolion hawliau i'w data y mae'n rhaid eu parchu a chydymffurfio â hwy hyd eithaf ein gallu. Mae'n rhaid i ni sicrhau y gall unigolion ymarfer eu hawliau yn y ffyrdd canlynol:

1. Yr hawl i gael gwybod

- Mae Hysbysiadau Preifatrwydd yn eu lle sy'n gryno, yn dryloyw, yn ddealladwy ac yn hawdd eu cyrraedd, yn rhad ac am ddim, sydd wedi'u hysgrifennu mewn iaith glir a syml, yn enwedig os ydynt ar gyfer plant.
- Rydym yn cadw cofnod o sut rydym yn defnyddio data personol i ddangos cydymffurfiaeth â'r angen am atebolrwydd a thryloywder.

2. Hawl mynediad

- Gall unigolion gyrchu eu data personol a gwybodaeth atodol.
- Rhoddi gwybod i unigolion am gyfreithlondeb y gweithgareddau prosesu

3. Yr hawl i gywiro

- Caiff data personol yr unigolyn ei gywiro neu'i ddiwygio os bydd testun y data'n gofyn am hyn os yw'n anghywir neu'n anghyflawn.
- Gwneir hyn yn ddi-oed, a dim hwyrach nag un mis. Gellir ymestyn hyn i ddau fis â chaniatâd y DPO ac â chymeradwyaeth testun y data.

4. Yr hawl i ddileu

- Byddwn yn dileu neu'n tynnu data unigolyn os gofynnir i ni wneud hyn ac nid oes rheswm anorchfygol dros barhau i'w brosesu.

5. Yr hawl i gyfyngu ar brosesu

- Byddwn yn cydymffurfio ag unrhyw gais i gyfyngu, rhwystro, neu atal fel arall prosesu data personol.
- Caniateir i ni storio data personol os yw wedi'i gyfyngu, ond nid ei brosesu ymhellach. Byddwn yn cadw digon o ddata i sicrhau bod yr hawl i gyfyngu yn cael ei pharchu yn y dyfodol.

6. Yr hawl i gludadwyedd data

- Ar gais, byddwn yn rhoi data i unigolion er mwyn iddynt allu ei aildefnyddio at eu dibenion eu hunain neu ar draws gwahanol wasanaethau.
- Byddwn yn ei ddarparu mewn fformat a ddefnyddir yn gyffredin, sy'n ddarllenadwy gan beiriant, ac yn ei anfon yn uniongyrchol at reolydd arall os gofynnir i ni wneud hyn.

7. Yr hawl i wrthwynebu

- Byddwn yn parchu hawl unigolyn i wrthwynebu prosesu data ar sail buddiant cyfreithlon neu gyflawni tasg er lles y cyhoedd.
- Byddwn yn parchu hawl unigolyn i wrthwynebu marchnata uniongyrchol, gan gynnwys proffilio.
- Byddwn yn parchu hawl unigolyn i wrthwynebu i brosesu ei ddata ar gyfer ymchwil ac ystadegau gwyddonol a hanesyddol.

8. Hawliau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau awtomataidd a phroffilio

- Byddwn yn parchu hawliau unigolion mewn perthynas â gwneud penderfyniadau awtomataidd a phroffilio.
- Mae unigolion yn cadw eu hawl i wrthwynebu prosesu awtomataidd o'r fath, cael esboniad o'r sail resymegol, a gofyn am ymyrraeth ddynol.

Hysbysiadau preifatrwydd

Darperir hysbysiad preifatrwydd ar yr adeg y ceir y data os yw wedi'i gael yn uniongyrchol oddi wrth destun y data. Os na chafwyd y data yn uniongyrchol oddi wrth destun y data, bydd yr hysbysiad preifatrwydd yn cael ei ddarparu o fewn cyfnod rhesymol ar ôl cael y data, a fydd yn golygu o fewn un mis.

Os yw'r data'n cael ei ddefnyddio i gyfathrebu â'r unigolyn, yna bydd yr hysbysiad preifatrwydd yn cael ei ddarparu, fan hwyraf, pan fydd y cyfathrebu cyntaf yn digwydd.

Os rhagwelir datgelu i dderbynydd arall, yna bydd yr hysbysiad preifatrwydd yn cael ei ddarparu cyn i'r data gael ei ddatgelu.

Beth sydd wedi'i gynnwys yn ein Hysbysiad Preifatrwydd

Mae ein Hysbysiadau Preifatrwydd yn gryno, yn dryloyw, yn ddealladwy ac yn hawdd eu cyrraedd. Fe'u darperir yn rhad ac am ddim ac fe'u hysgrifennir mewn iaith glir a syml, yn enwedig os ydynt ar gyfer plant.

Mae'r wybodaeth ganlynl wedi'i chynnwys mewn hysbysiadau preifatrwydd i bob pwnc data:

- Gwybodaeth adnabod a chyswllt y rheolwr data a'r swyddog diogelu data
- Y mathau o ddata personol a gesglir
- Diben prosesu'r data
- Y cyfnodau cadw
- Buddiannau cyfreithlon y rheolydd neu'r trydydd parti, os yw'n berthnasol
- A yw'r data'n cael ei rannu â thrydydd parti ac am ba reswm
- Gwybodaeth fanwl am unrhyw drosglwyddiadau i drydydd gwledydd a mesurau diogelu sydd ar waith
- Hawliau unigol testun y data
- Y broses ar gyfer testun y data i wneud Cais am Fynediad at Ddata gan y Testun

Ceisiadau am Fynediad at Ddata gan y Testun

Mae gan unigolyn yr hawl i gael cadarnhad bod ei ddata'n cael ei brosesu, mynediad at ei ddata personol a gwybodaeth atodol sy'n golygu'r wybodaeth y dylid ei ddarparu mewn hysbysiad preifatrwydd.

Sut rydym yn delio â cheisiadau am fynediad at ddata gan y testun

Byddwn yn ddarparu testun y data â chopi o'u gwybodaeth ar gais, yn rhad ac am ddim. Bydd hyn yn digwydd yn ddi-oed, ac o fewn mis i'w dderbyn. Ymdrechwn i ddarparu mynediad i destunau'r data at eu gwybodaeth mewn fformatau electronig a ddefnyddir yn gyffredin, a, lle bo hynny'n bosibl, ddarparu mynediad uniongyrchol at y wybodaeth trwy system ddiogel y gellir ei defnyddio o bell. Os nad yw hyn ar gael bydd data'n cael ei drosglwyddo mewn dull mae testun y data'n cytuno arno.

Os yw cydymffurfio â'r cais yn gymhleth neu'n niferus, gellir ymestyn y dyddiad cau gan ddau fis, ond rhoddir gwybod i'r unigolyn o fewn un mis. Mae'n rhaid cael cymeradwyaeth y DPO cyn ymestyn y dyddiad cau.

Gallwn wrthod ymateb i rai ceisiadau, a gallwn, mewn amgylchiadau lle mae'n amlwg bod y cais yn ddi-sail neu'n ormodol, godi tâl. Os yw'r cais am swm mawr o ddata, gallwn ofyn i'r unigolyn fanylu ar y wybodaeth y mae'n gofyn amdani. Gellir gwneud hyn â chaniatâd y DPO yn unig.

Ar ôl gwneud cais am fynediad at ddata gan y testun, ni fyddwn yn newid nac yn diwygio unrhyw ddata y gofynnwyd amdano. Mae gwneud hynny'n drosedd.

I gael mwy o wybodaeth gweler – **Polisi Cais am Fynediad at Ddata gan y Testun**

Ceisiadau cludadwyedd data

Byddwn yn darparu'r data y gofynnwyd amdano mewn fformat strwythuredig, a ddefnyddir yn gyffredin ac sy'n ddarllenadwy gan beiriant. Ffeil CSV fyddai hwn fel arfer, er bod fformatau eraill yn dderbyniol. Byddwn yn darparu'r data hwn naill ai i'r unigolyn sydd wedi gofyn amdano, neu i'r rheolydd data y mae wedi gofyn iddo gael ei anfon ato. Gwneir hyn yn rhad ac am ddim ac yn ddi-oed, a dim hwyrach nag un mis. Gellir ymestyn hyn i ddau fis ar gyfer ceisiadau cymhleth neu niferus, ond mae'n rhaid rhoi gwybod i'r unigolyn am yr estyniad o fewn un mis.

Yr hawl i ddileu (yr hawl i gael eich anghofio)

Mae gan unigolion hawl i gael eu data wedi'i ddileu ac i'r prosesu ddod i ben o dan yr amgylchiadau canlynol:

- Pan nad oes angen y data personol bellach mewn perthynas â'r diben y cafodd ei gasglu a/neu ei brosesu ato'n wreiddiol
- Pan gaiff caniatâd ei dynnu'n ôl
- Pan mae'r unigolyn yn gwrthwynebu prosesu ac nid oes unrhyw fuddiant cyfreithlon hollbwysig ar gyfer parhau i brosesu
- Cafodd y data personol ei brosesu'n anghyfreithlon neu dramgwyddodd gyfreithiau diogelu data mewn ffordd arall
- I gydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol
- Mae'r prosesu'n ymwneud â phlentyn

Sut rydym yn delio â'r hawl i ddileu

Ni allwn ond gwrthod cydymffurfio â'r hawl i ddileu o dan yr amgylchiadau canlynol:

- Ymarfer yr hawl i ryddid mynegiant a gwybodaeth
- Cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol i gyflawni tasg er lles y cyhoedd neu ymarfer awdurdod swyddogol
- At ddibenion iechyd y cyhoedd er lles y cyhoedd
- At ddibenion archifo er lles y cyhoedd, ymchwil wyddonol, ymchwil hanesyddol neu at ddibenion ystadegol
- Ymarfer neu amddiffyn hawliadau cyfreithiol

Os yw'r data personol y mae angen ei ddileu wedi'i drosglwyddo i bartïon neu dderbynwyr eraill, cysylltir â hwy a rhoddir gwybod iddynt am eu rhwymedigaeth i ddileu'r data. Os bydd yr unigolyn yn gofyn, byddwn yn rhoi gwybod iddo am y derbynwyr hynny.

Yr hawl i wrthwynebu

Mae gan unigolion yr hawl i wrthwynebu i'w data gael ei ddefnyddio am resymau sy'n ymwneud â'u sefyllfa benodol. Byddwn yn rhoi'r gorau i brosesu oni bai:

- Bod gennym resymau dilys dros brosesu sy'n drech na buddiannau, hawliau a rhyddid yr unigolyn.
- Bod y prosesu'n ymwneud â sefydlu, ymarfer neu amddiffyn hawliadau cyfreithiol.

Byddwn bob amser yn rhoi gwybod i'r unigolyn am eu hawl i wrthwynebu ar yr adeg cyfathrebu cyntaf, h.y. yn yr hysbysiad preifatrwydd. Byddwn yn cynnig ffordd i unigolion wrthwynebu ar-lein.

Yr hawl i gyfyngu ar broffilio neu wneud penderfyniadau awtomataidd

Byddwn yn gwneud gwaith proffilio neu wneud penderfyniadau awtomataidd, sy'n cael effaith gyfreithiol neu sylweddol debyg ar unigolyn, o dan yr amgylchiadau canlynol yn unig:

- Mae'n ofynnol er mwyn cychwyn neu gyflawni contract.
- Ar sail cydsyniad penodol yr unigolyn.
- Wedi'i awdurdodi gan y gyfraith fel arall.

O dan yr amgylchiadau hyn, byddwn yn:

- Rhoi gwybodaeth fanwl i unigolion am y prosesu awtomataidd.
- Rhoi gwybod eu bod yn gallu gofyn am ymyrraeth ddynol neu herio unrhyw benderfyniad amdanynt.
- Cynnal archwiliadau rheolaidd a phrofi defnyddwyr i wneud yn siŵr bod ein systemau yn gweithio fel y bwriadwyd.

Trydydd partion

Defnyddio rheolyddion a phroseswyr trydydd parti

Fel rheolydd data a phrosesydd data, mae gennym gontractau ysgrifenedig ar waith â phroseswyr data a rheolyddion data trydydd parti a ddefnyddiwn. Mae'r contractau'n cynnwys cymalau penodol sy'n nodi ein rhwymedigaethau, eu rhwymedigaethau a'u cyfrifoldebau.

Fel rheolydd data, rydym yn penodi proseswyr sy'n gallu darparu gwarantau digonol o dan y GDPR, ac y bydd hawliau testunau data'n cael eu parchu a'u diogelu, yn unig. Gofynnwn am gwblhau Cytundeb Diogelu Data ar gyfer trydydd partion sy'n prosesu ein data. Cwblheir diwydrwydd dyladwy ar gyfer proseswyr sy'n cynnal gweithgareddau risg uchel fel rhan o'u gwasanaeth a gofynnwn iddynt gwblhau Holiadur Diogelwch Data Trydydd Parti cyn dechrau ar wasanaeth. Bydd y DPO, y Cyfarwyddwr TG a'r rheolwr perthynas cyflenwi yn adolygu'r holiadur hwn cyn ei gymeradwyo.

Fel prosesydd data, dim ond ar sail cyfarwyddiadau wedi'u dogfennu oddi wrth rheolydd y byddwn yn gweithredu. Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldebau fel prosesydd data o dan GDPR a byddwn yn diogelu ac yn parchu hawliau testunau data. Os yw'n briodol, ar sail y ddarpariaeth gwasanaeth a sensitifrwydd y data, bydd Cytundeb Prosesu Data yn cael ei sefydlu rhwng y rheolydd data a'r prosesydd data.

Contractau a Chytundebau Prosesu Data

Mae ein contractau a Chytundebau Prosesu Data yn cydymffurfio â'r safonau mae'r ICO wedi manylu arnynt a, lle bo modd, maent yn dilyn y cymalau cytundebol safonol sydd ar gael. Rhaid i'n contractau â rheolyddion data a phroseswyr data fanylu ar y deunydd pwnc a hyd y prosesu, natur a phwrpas datganedig y gweithgareddau prosesu, y mathau o ddata personol a chategorïau o destun y data, a rhwymedigaethau a hawliau'r rheolydd.

Fel isafswm, mae ein contractau a Chytundebau Prosesu Data yn cynnwys telerau sy'n nodi:

- Bod y rheiny sy'n ymwneud â phrosesu'r data yn destun i ddyletswydd cyfrinachedd
- Bydd mesurau priodol yn cael eu cymryd i sicrhau diogelwch y prosesu
- Caiff is-broseswyr eu cymryd ymlaen â chydysyniad blaenorol y rheolydd yn unig, ac o dan gontract ysgrifenedig
- Bydd y rheolydd yn cynorthwyo'r prosesydd wrth ddelio â cheisiadau am fynediad at ddata gan y testun ac yn caniatáu i destun y data ymarfer ei hawliau o dan GDPR
- Bydd y prosesydd yn cynorthwyo'r rheolydd i gyflawni ei rwymedigaethau GDPR mewn perthynas â diogelwch prosesu, rhoi gwybod am dramgwyddau data a gweithredu Asesiadau o Effaith Diogelu Data
- Trefniadau ar gyfer gwaredu neu ddychwelyd data ar ôl terfynu'r cytundeb/contract
- Ar gael ar gyfer archwiliadau ac arolygiadau rheolaidd, ac yn darparu pa bynnag wybodaeth sy'n ofynnol i'r rheolydd a'r prosesydd fodloni eu rhwymedigaethau cyfreithiol.
- Ni fydd y rheolydd na'r prosesydd yn gwneud unrhyw beth i dorri'r GDPR.

Archwiliadau, monitro a hyfforddiant

Archwiliadau data

Bydd archwiliadau data rheolaidd i reoli risgiau a'u lliniaru yn darparu gwybodaeth ar gyfer y gofrestr ddata. Mae hon yn cynnwys gwybodaeth am ba ddata sydd gennym, lle caiff ei storio, sut y caiff ei ddefnyddio, pwy sy'n gyfrifol ac unrhyw reoliadau pellach neu amserlenni cadw a allai fod yn berthnasol. Bydd archwiliadau rheolaidd o'n prosesau diogelu data a'n system rheoli diogelwch gwybodaeth yn cael eu cynnal yn unol â'n achrediadau ISO 9001 a 27001.

Monitro

Mae'n rhaid i bawb gadw at y polisi hwn. Y DPO sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am y polisi hwn. Bydd Grŵp TTC yn cadw golwg ar y polisi hwn ac yn ei ddiwygio neu ei newid fel bo angen. Rhoddir gwybod i'r DPO am unrhyw dramgwyddau o'r polisi hwn. Bydd cydymffurfiaeth â'r polisi hwn yn llwyr ac ar bob adeg.

Hyfforddiant

Bydd holl weithwyr Grŵp TTC yn cael hyfforddiant digonol ar ddarpariaethau cyfraith diogelu data sy'n benodol ar gyfer eu rôl. Rhoddir hyfforddiant pellach yn ôl y gofyn neu os oes symud o ran rôl neu gyfrifoldebau.

Cofnodi achosion o dramgwydd

Mae'n rhaid rhoi gwybod am unrhyw dramgwydd o'r polisi hwn neu gyfreithiau diogelu data cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl. Mae hyn yn golygu cyn gynted ag y byddwn wedi dod yn ymwybodol o dramgwydd. Mae gan Grŵp TTC rwymedigaeth gyfreithiol i adrodd am unrhyw dramgwyddau data i'r ICO o fewn 72 awr.

Mae rhwymedigaeth ar bob aelod o staff i adrodd ar fethiannau cydymffurfio gwirioneddol neu bosibl o ran diogelu data. Mae hyn yn caniatáu i ni:

- Ymchwilio i'r methiant a chymryd camau adferol os oes angen
- Cadw cofrestr o fethiannau cydymffurfio
- Rhoi gwybod i'r ICO am unrhyw fethiannau cydymffurfio sy'n berthnasol naill ai yn eu hawl eu hunain neu fel rhan o batrwm o fethiannau

Bydd unrhyw aelod o staff sy'n methu â rhoi gwybod am dramgwydd, neu y canfyddir ei fod yn gwybod neu'n amau bod tramgwydd wedi digwydd, ond heb ddilyn y gweithdrefnau adrodd cywir, yn agored i gamau disgyblu.

I gael mwy o wybodaeth, gweler - **Polisi Adrodd ar Ddiogelu Data**

Methiant i gydymffurfio

Rydym yn cymryd cydymffurfiaeth â'r polisi hwn yn ddifrifol iawn. Mae methu â chydymffurfio yn rhoi'r unigolyn, y rheolydd data a'r sefydliad prosesu data mewn perygl.

Mae pwysigrwydd y polisi hwn yn golygu y gall methiant i gydymffurfio ag unrhyw ofyniad arwain at gamau disgyblu o dan ein gweithdrefnau a allai arwain at ddiswyddo.

Gall methiant i gydymffurfio â'r polisi hwn, neu'r telerau a nodir yn ein contract a/neu Gytundeb Prosesu Data, arwain at derfynu'r gwasanaeth hwnnw.

Os oes unrhyw gwestiynau neu bryderon am unrhyw beth yn y polisi hwn, peidiwch ag oedi cyn cysylltu â DPO Grŵp TTC.

Polisïau ategol

Mae'r Polisi Cydymffurfiaeth â GDPR yn cael ei gefnogi gan bolisiau canlynol y cwmni, sydd ar gael ar gais:

Polisi Teledu Cylch Cyfyng
Polisi Diogelwch Cyfrifiaduron
Polisi Dosbarthu Data
Polisi Gwaredu Data
Polisi Diogelu Data
Polisi Cyfathrebu ac E-bost
Polisi Amgryptio
Polisi Protocol Gweithwyr Gartref
Polisi Diogelwch Gwybodaeth
Polisi Rhannu Gwybodaeth
Polisi Defnyddio'r Rhyngrwyd
Polisi Rheoli Diogelu Data – Ymholiadau gan Drydydd Parti
Polisi Dyfeisiau Symudol
Polisi Fetio ac eithrio'r Heddlu
Polisi Cyfrineiriau
Polisi Ansawdd
Gweithdrefn Canfod Feirysau